



Cyflwyno'r ffurflenni – Deddf Plant 1989

Ynghylch cyflwyno

Rhan 1

Beth sydd yn y daflen hon

Mae swyddfa'r llys wedi cychwyn eich cais, wedi dychwelyd eich copiau ac wedi darparu copiau o ffurflenni newydd a all gynnwys:

- C6 neu C6A (Rhybudd o Achos)
- C7 (Cydnabyddiaeth)
- C9 (Datganiad o Fodd)

Mae'r daflen hon yn dweud wrthy ch beth i'w wneud â'r ffurflenni newydd hyn.

Pam mae angen y ffurflenni newydd arnoch

Rhaid i chi yn awr ddweud wrth rhai pobl eich bod wedi gwneud cais am orchymyn llys. Gelwir hyn yn 'gyflwyno' a rhaid i chi, yn ôl y gyfraith, gyflwyno i'r holl bobl hynny oni bai fod y llys wedi dweud wrthy ch am beidio â chyflwyno iddynt.

Mae yna reolau ynghylch:

- pryd i gyflwyno
- i bwy y mae'n rhaid i chi gyflwyno
- Beth i'w gyflwyno (bydd rhaid i chi gyflwyno papurau eraill gyda ffurflen C6)
- sut i gyflwyno

Mae'r daflen hon yn egluro'r rheolau hyn, ond os cewch unrhyw broblemau gyda chyflwyno, dywedwch wrth swyddfa'r llys ar unwaith.

Ynghylch ffurflenni C6 a C6A

Gelwir y ddwy ffurflen hyn yn Rhybuddion o Achos ond mae ganddynt nodiadau gwahanol ar y cefn ac o dan 'Beth i'w wneud nesaf' ar y ddalen flaen.

Ar bob Rhybudd, mae swyddfa'r llys wedi rhoi: y dyddiad, yr amser a'r lleoliad ar gyfer gwrandawriad cyntaf eich achos (y gwrandawriad cyfarwyddo).

Mae'r swyddfa wedi darparu Rhybudd i chi ar gyfer pawb y mae'n rhaid i chi gyflwyno iddynt. Fodd bynnag, chi sy'n gyfrifol am gyflwyno, felly sicrhewch fod gennych yr holl Rybuddion y mae eu hangen arnoch. Gallwch ddod o hyd i bwy y mae'n rhaid i chi gyflwyno iddynt yn Rhan 2 a Rhan 3 y daflen hon.

Pryd i gyflwyno

Rhaid i chi gyflwyno'r ffurflenni a'r papurau eraill erbyn dyddiad a roddir i chi gan swyddfa'r llys. Ar ôl i chi gyflwyno i bawb rhaid i chi llenwi ffurflen C9. Bydd hon yn dweud wrth y llys ar ba ddyddiad a faint o'r gloch oedd hi pan fu i chi gyflwyno i bob unigolyn.

Rhan 2 Cyflwyno ffurflen C6

I bwy y mae'n rhaid i chi gyflwyno

Pawb yn:

Rhan 4 ffurflen C1

neu

Rhan 3 ffurflen C2

neu

Rhan 5 ffurflen C79

Beth i'w gyflwyno

- Cyflwynwch i bawb:
- eu copi hwy o'r Rhybudd o Achos, ffurflen C6
- copi o bob ffurflen
- copi o unrhyw bapurau eraill y mae swyddfa'r llys wedi caniatáu i chi eu ffeilio yn y llys (er enghraifft, copi o orchymyn llys)
- Datganiad o Fodd gwag os ydych wedi llenwi ffurflen C10A
- Cydnabyddiaeth, ffurflen C7, os yw swyddfa'r llys wedi darparu'r ffurflen hon.

Sut i gyflwyno

Ni chewch gyflwyno ond yn y ffyrdd a nodir yn Rhan 4 y daflen hon.

Rhan 3 Cyflwyno ffurflen C6A

I bwy y mae'n rhaid i chi gyflwyno

Pawb sydd yn Rhan 5 ffurflen C1

Beth i'w gyflwyno

Cyflwynwch i bawb eu copi hwy o'r Rhybudd o Achos, ffurflen C6A.

Hon yw'r **unig** ffurflen i chi ei chyflwyno.

Peidiwch â chyflwyno copïau o unrhyw bapurau eraill gyda ffurflen C6A.

Cyflwyno ffurflen C6A mewn cais am orchymyn gorfodi neu orchymyn iawndal am golled ariannol (ffurflen C79)

Dylid cyflwyno i'r unigolion eraill i'w hysbysu a enwir yn Rhan 6 Ffurflen C79 fel a ganlyn.

Os ydych chi wedi enwi swyddog Cafcass neu CAFCASS Cymru yn Rhan 6 Ffurflen C79, sydd yn monitro'r gorchymyn trefniadau plant neu orchymyn gorfodi, rhaid i chi gyflwyno i'r swyddog:

- Eu copi hwy o'r Rhybudd o Achos, ffurflen C6A.

Os ydych wedi enwi unigolyn a oedd yn warcheidwad y plentyn /plant, gwarcheidwad ad litem, cyfaill agosaf neu gynrychiolydd cyfreithiol i blentyn yn yr achosion trefniadau gofal plant gwreiddiol yn rhan 6 o'ch cais C79, mae'n rhaid i chi gyflwyno i'r unigolyn hynny:

- Eu copi hwy o'r Rhybudd o Achos, ffurflen C6A.
- Y llythyr [Cyfeirnod: CREPLET] a anfonwyd atoch gan swyddfa'r llys.
- Copi o'r ffurflen gais
- Copi o unrhyw bapurau eraill yr ydych wedi ffeilio yn y llys (er enghraifft gorchymyn llys)

Dylid anfon y dogfennau hyn i'r unigolion sydd i'w hysbysu (ond gweler y paragraff nesaf). Ni ddylid anfon yr rhain i'r plentyn. Dylai'r unigolyn sy'n derbyn y llythyr gynghori'r llys os yw er lles gorau'r plentyn i'r plentyn fod yn barti yn yr achos i'r cais hwn.

Os yw'r hysbysiad i'w anfon i'r unigolyn a oedd neu yn swyddog Cafcass/CAFCASS Cymru, yna dylid anfon hysbysiad i reolwr swyddfa Cafcass/CAFCASS Cymru, yn hytrach na'r swyddog a enwir.

Sut i gyflwyno

Ni chewch gyflwyno ond yn y ffyrdd a nodir yn Rhan 4 y daflen hon.

Rhan 4 Sut i gyflwyno

Os oes gan unigolion gyfreithiwr

dylid cyflwyno i'r cyfreithiwr bob amser:

drwy anfon y ffurflenni i swyddfa'r cyfreithiwr drwy gyfrwng y post dosbarth 1af

neu

drwy ddanfon y ffurflenni i swyddfa'r cyfreithiwr.

Os nad oes gan rywun gyfreithiwr,

neu os nad ydych yn sicr a oes ganddynt gyfreithiwr ai peidio:

rhowch y ffurflenni i'r unigolyn yr ydych yn cyflwyno iddo/iddi

neu

anfonwch y ffurflenni atynt drwy gyfrwng y post dosbarth 1af.

Os yw rhywun dan 18 oed

rhaid ichi gyflwyno'r ffurflenni i'w cyfreithiwr. Ond os nad oes ganddynt gyfreithiwr rhaid i chi wneud cais i'r llys am ganiatâd i gyflwyno i'r plentyn. Defnyddiwch ffurflen C2 i wneud hynny.

Dalier Sylw: Nid yw hyn yn berthnasol i'r amgylchiadau a ddisgrifir yn Rhan 3 am gyflwyno C6A a phapurau eraill mewn cais am orfodaeth neu am iawndal ariannol. Yn yr achosion hynny rhaid i chi gyflwyno'r papurau yn y ffordd a nodir yn Rhan 3.

Ar ôl i chi gyflwyno'r papurau

Llenwch y Datganiad Cyflwyno, ffurflen C9, a gwnewch gopi ar eich cyfer eich hun. Wedyn:

ewch â'r datganiad i swyddfa'r llys, neu ei anfon yno, cyn y gwrandawriad

neu

ewch â'r datganiad i'r gwrandawriad.